

# Cartrefi Rhifyn 8 yr Haf Caerffili

## Dathlu gwobrau!

Yn dilyn llwyddiant ein Nosweithiau Dathlu blaenorol, bydd digwyddiad eleni yn fwy ac yn well nac erioed, gydag adran newydd o wobrau ar gyfer y tenantiaid hynny â dawn yn yr ardd!

## Blodau bendigedig...

Mae'n bleser gennym gyhoeddi lansiad ein cystadleuaeth arddio gyntaf i denantiaid. Gall tenantiaid gystadlu mewn tri chategori:

- Yr ardd orau
- Y fasged / potyn / cynhwysydd gorau
- Yr ardd gymunedol orau



## Gwobrau Trawsnewid Bywydau a Chymunedau

Bellach yn ei thrydedd flwyddyn, mae ein Gwobrau Trawsnewid Bywydau a Chymunedau yn cydnabod y bobl hynny sy'n gwneud gwir wahaniaeth i fywydau tenantiaid a chymunedau lleol.

Y categorïau eleni yw:

- Y Wobr Trawsnewid Bywydau:
  - Unigol
  - Grŵp

- Y Wobr Trawsnewid Cymunedau:
  - Unigol
  - Grŵp
  - Gwobr Cyflogai 'Y Ffilltir Ychwanegol'

I gystadlu yn unrhyw rai o'r categorïau uchod, neu i gael gwybodaeth bellach am y meini prawf, cysylltwch â Chloe Thomas, Cynorthwydd Cymorth y Rhaglen, ar 01443 866493 neu drwy anfon e-bost at [thomas13@caerffili.gov.uk](mailto:thomas13@caerffili.gov.uk).

Y dyddiad cau ar gyfer pob categori yn y gwobrau yw dydd Gwener 8fed Gorffennaf 2016. Bydd enwau'r enillwyr yn cael eu cyhoeddi mewn digwyddiad dathlu ym mis Medi.



**yourccbchomes**  
Dilynwch ni ar Twitter.



**yourcaerphillyhomes**  
'Hoffwch' ni ar Facebook.

Caerphilly Homes  
Cartrefi Caerffili



# Sut i gysylltu â ni

## Swyddfa Tai Ardal Dwyrain y Cymoedd

Ffôn: 01495 235229

E-bost: [sdacwmdwyreiniol@caerffili.gov.uk](mailto:sdacwmdwyreiniol@caerffili.gov.uk)

## Swyddfa Tai Ardal Cwm Rhymni Uchaf

Ffôn: 01443 873535

E-bost: [sdacwmrhymniuchaf@caerffili.gov.uk](mailto:sdacwmrhymniuchaf@caerffili.gov.uk)

## Swyddfa Tai Cymdogaeth Parc Lansbury

Ffôn: 02920 860917

E-bost: [sdcparclansbury@caerffili.gov.uk](mailto:sdcparclansbury@caerffili.gov.uk)

## Swyddfa Tai Cymdogaeth Graig y Rhaca

Ffôn: 02920 853050

E-bost: [sdcgraig-y-rhaca@caerffili.gov.uk](mailto:sdcgraig-y-rhaca@caerffili.gov.uk)

## Rhoi gwybod am waith trwsio

Ffôn: 01443 864886

E-bost: [DLOPBE@caerffili.gov.uk](mailto:DLOPBE@caerffili.gov.uk)

## Gwaith trwsio brys (pan fydd swyddfeydd ar gau)

Ffôn: 01443 875500



Os ydych yn credu bod nwy yn gollwng yn eich cartref, ffoniwch wasanaeth  
brys Wales and West Utilities ar 0800 111 999

## Tîm Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS)

Ffôn: 01443 866497

E-bost: [ymholiadausatc@caerffili.gov.uk](mailto:ymholiadausatc@caerffili.gov.uk)

## Adran Rhenti

Ffôn: 01495 235600

E-bost: [rhenti1@caerffili.gov.uk](mailto:rhenti1@caerffili.gov.uk)

## Budd-dal Tai

Ffôn: 01443 866567

E-bost: [budd-daliadau@caerffili.gov.uk](mailto:budd-daliadau@caerffili.gov.uk)

## Dyraniadau a chyngor ar dai

Ffôn: 01443 837552

E-bost: [cyngorardai@caerffili.gov.uk](mailto:cyngorardai@caerffili.gov.uk)

## Tîm cyfranogiad tenantiaid a'r gymuned

Ffôn: 01495 235011 / 235557

E-bost: [cyfranogiadtenantiaid@caerffili.gov.uk](mailto:cyfranogiadtenantiaid@caerffili.gov.uk)

## Tîm cymorth fel y bo'r angen

Ffôn: 01495 235574

E-bost: [cymorthhyblyg@caerffili.gov.uk](mailto:cymorthhyblyg@caerffili.gov.uk)

## Tîm Tai y Sector Preifat

Ffôn: 01495 235216 / 235252

E-bost: [taisectorpreifat@caerffili.gov.uk](mailto:taisectorpreifat@caerffili.gov.uk)



# Dim gollwng gwastraff!

Mae ein swyddogion ni a thimau eraill o'r cyngor yn monitro ystadau lleol yn rheolaidd; yn ddiweddar rydym wedi canfod rhai ardaloedd lle mae eitemau mawr yn cael eu dympio ar strydoedd a'r tu allan i eiddo. Mae hyn yn denu tipio pellach ac yn gwneud yr ardaloedd hyn yn flêr i bawb sy'n byw yno.

Os ydych yn gweld unrhyw un yn cael gwared ar wastraff mewn ffordd anghyfrifol, rhowch wybod i Balchder Stryd Caerffili ar 01443 866566 neu rhowch wybod i ni ar-lein [www.caerphilly.gov.uk/contact-us/Online-Services](http://www.caerphilly.gov.uk/contact-us/Online-Services)

Bydd y cyngor yn casglu setiau o ddodrefn, cadeiriau breichiau, gwelyau a matresi am ddim. Codir taliadau am eitemau eraill ar y gyfradd ganlynol: 1-3 eitem £15; 4-6 eitem £20. Neu gallwch gael gwared arnynt eich hun am ddim yn un o'r chwe safle amwynder dinesig.

Os ydych yn profi anawsterau yn cael gwared ar eitemau diangen ac yr hoffech gael rhywfaint o gyngor pellach, cysylltwch â Gofal Cwsmeriaid y Gwasanaethau Cyhoeddus ar 01443 866533 neu drwy anfon e-bost [gwasanaethaucyhoeddus@caerffili.gov.uk](mailto:gwasanaethaucyhoeddus@caerffili.gov.uk) neu cysylltwch â'ch swyddog tai.

# Diweddariad ar y Polisi Ailgodi Tâl

Yn eich cylchlythyr diwethaf fe wnaethom sôn am y Polisi Ailgodi Tâl a'r amgylchiadau y gellid ailgodi tâl arnoch. Rydym am esbonio i chi yn awr pam ein bod wedi cyflwyno'r polisi ac, o ganlyniad i gynnydd mewn costau o Ebrill 2016, faint y gallai'r taliadau hyn fod.

Mae gan y cyngor, fel landlord, rwymedigaeth i sicrhau bod ei stoc tai mewn cyflwr da. Byddwn yn gwneud hyn pan fyddwn yn cael gwybod am waith trwsio, heb unrhyw gost i'r tenant, ar yr amod mai cyfrifoldeb y landlord yw'r gwaith trwsio a'i fod yn ofynnol oherwydd traul arferol. Mae hyn fel arfer yn golygu pan fydd gosodiad neu ffitiad wedi treulio neu wedi dod i ddiwedd ei oes naturiol.

Mae'r rhan fwyaf o denantiaid yn cadw eu cartrefi mewn cyflwr da, ond mae rhai sy'n achosi difrod bwriadol neu drwy esgeulustod. Pan fydd angen gwaith o'r fath, rydym yn galw'r rhain yn 'gwaith trwsio ailgodi tâl'. Nid ydym eisiau i'r tenantiaid sy'n gofalu am eu cartrefi i orfod rhannu costau'r gwaith trwsio i'r rhai nad ydynt.

Pan ganfyddir mai'r tenant sy'n gyfrifol am atgyweiriad, mae gan y tenant y dewis i wneud y gwaith trwsio eu hunain. Mae hyn yn cael ei fonitro er mwyn sicrhau bod y gwaith trwsio wedi'i gwblhau i'r safon ofynnol. Lle bo hynny'n bosibl, byddwn yn cynghori'r tenant y byddwn yn ailgodi tâl am y gwaith trwsio cyn i'r gwaith ddechrau.

Mae'r cyngor yn cynnig polisi yswiriant i bob tenant sy'n cwmpasu rhai mathau o waith trwsio nad yw'r cyngor yn gyfrifol amdanynt. Mae gan denantiaid y dewis hefyd o dalu premiwm ychwanegol i yswirio rhag difrod damweiniol. I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â 01443 815588 neu 01495 226622.

## Y costau sy'n berthnasol o fis Ebrill 2016 yw:

### • Dim mynediad - £27.70 (dim TAW yn daladwy)

Mae'r tâl hwn yn daladwy am fethu apwyntiadau ac mae'n cynnwys cyfran o amser y gweithiwr, costau trafniadaeth a gweinyddu ar gyfer prosesu'r gwaith. *Fodd bynnag, os byddwn yn methu mynychu apwyntiad ar amser y cytunwyd arno, gall tenantiaid wneud cais am iawndal gennym; bydd hyn yn seiliedig ar dâl safonol a bydd angen i denantiaid ddangos tystiolaeth.*

### • Galwadau y tu allan i Orlau Arferol (Ar alwad) - £86.88 yn cynnwys TAW

Mae tâl galw allan yn daladwy am fynychu y tu allan i oriau arferol i adroddiadau o ddifrod damweiniol neu droseddol. Mae hyn yn seiliedig ar y costau o gyflogi'r gweithiwr am y gwasanaeth hwn, yn ogystal â chostau trafniadaeth a gweinyddu. Nid yw costau deunyddiau yn cael eu cynnwys yn y tâl galw allan a byddant yn cael eu cyfrifo ar wahân.



### • Mân waith trwsio - £42.99 yn cynnwys TAW

Mae enghreifftiau o fân waith trwsio yn cynnwys gosod cloeon newydd ar ddrysau, trwsio tap sy'n gollwng neu doiled sy'n gollwng. Mae'r gost yn cynnwys teithio i'r eiddo, yr holl ddeunyddiau a'r costau llafur a hyd at 1 awr o amser y gweithiwr i gwblhau'r gwaith.

### • Gwaith trwsio canolig - £85.97 yn cynnwys TAW

Mae enghreifftiau o waith trwsio canolig yn cynnwys gosod sedd toiled newydd neu osod un drws mewnol newydd. Mae'r gost yn cynnwys teithio i'r eiddo, yr holl ddeunyddiau a'r costau llafur a hyd at 2 awr o amser y gweithiwr i gwblhau'r gwaith.

### • Gwaith trwsio mawr - £171.94 yn cynnwys TAW

Mae enghreifftiau o waith trwsio mawr yn cynnwys gosod basn llaw newydd neu uned cegin newydd. Mae'r gost yn cynnwys teithio i'r eiddo, yr holl ddeunyddiau a chostau llafur a hyd at 4 awr o amser y gweithiwr i gwblhau'r gwaith.

*Bydd y gwaith trwsio canlynol yn cynnwys costau ychwanegol am ddeunyddiau, am eu bod yn eitemau â gwerth uchel. Mân waith trwsio – cawodydd trydan a drysau mesurydd nwy neu drydan; gwaith trwsio canolig – ffan echdynnu cegin ac ystafell ymolchi.*

*Bydd gwaith trwsio mwy, dros 4 awr, yn cael ei gyfrifo naill ai gan ddefnyddio Rhestr Cyfraddau'r cyngor neu drwy ddyfynbris os bydd angen i gontractwr allanol wneud y gwaith.*



# Gwelliannau mewnol Safon Ansawdd Tai Cymru....beth i'w ddisgwyl



Mae Safon Ansawdd Tai Cymru yn gyfres o safonau, a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru, y mae'n rhaid i gartrefi awdurdodau lleol a chymdeithasau tai yng Nghymru ei chyflawni. Mae rhan o'r safonau yn ymwneud â sicrhau bod gan gartrefi geginau, ystafelloedd ymolchi, offer trydanol a systemau gwresogi cyfoes.

Ni fydd angen cynnal yr holl welliannau hyn ym mhob cartref, oherwydd bydd rhai ohonynt eisoes yn cyflawni'r safon.

Bydd syrfewr yn ymweld â'ch cartref i asesu a oes angen cegin ac ystafell ymolchi newydd; bydd syrfewyr trydanol a gwresogi yn ymweld hefyd ar wahân, i gynnal archwiliadau.

Os bydd angen gwneud unrhyw waith yn eich cartref, byddwn yn ysgrifennu atoch i gadarnhau hyn ar ôl cwblhau'r arolygon.

Mae'n bosibl y bydd aelodau o staff eraill yn ymweld â'ch cartref i'n galluogi i ddarparu'r holl wybodaeth sydd ei hangen ar ein contractwyr pan fydd angen gwneud gwaith.

Os oes angen gwneud gwelliannau i'ch cartref, byddwn yn cysylltu â chi eto cyn y bydd angen i'r gwaith ddechrau er mwyn caniatáu amser digonol i chi baratoi ar gyfer y gwaith. Bydd un o'n Swyddogion Cyswllt Tenantiaid yn ymweld hefyd i wneud yn siŵr eich bod yn gwybod yn union beth i'w ddisgwyl pan fydd y gwaith yn dechrau. Eich Swyddog Cyswllt Tenantiaid fydd eich prif gyswllt cyn, yn ystod ac ar ôl y gwaith.

Cofiwch – bydd gan bob un o staff gwirioneddol y cyngor a chontractwyr sy'n gweithio ar ein rhan gerdyn adnabod ac ni fydd ots ganddynt eich bod yn gofyn i'w weld. Os oes gennych unrhyw amheuaeth, ni ddylech eu gadael i mewn i'ch cartref, a ffoniwch ni ar unwaith.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y rhaglen gwella Safon Ansawdd Tai Cymru, ffoniwch ni ar 01443 866497 neu anfon e-bost ar [ymholiadausatc@caerffili.gov.uk](mailto:ymholiadausatc@caerffili.gov.uk)

## Tîm Gorfodi Tenantiaeth – mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, trawsnewid bywydau.....

Cafodd teulu o 5 eu troi allan o'u heiddo sy'n berchen i'r cyngor yn ddiweddar yn dilyn cyfres o ddigwyddiadau gwrthgymdeithasol.

Yn ystod eu 3 blynedd yn eu cartref, derbyniwyd cwynion niferus am ymddygiad annerbyniol y rhieni.

Roedd y digwyddiadau'n cynnwys dadleuon meddw yn hwyr yn y nos, chwarae cerddoriaeth yn rhy uchel ar bob adeg, brawychu cymdogion, defnyddio iaith anweddus a sarhaus, ac ymddygiad bygythiol. Gwnaed nifer o atgyfeiriadau cymorth mewn ymgais i weithio gyda'r teulu er mwyn newid eu patrymau ymddygiad.

Cynhaliwyd ymchwiliadau ar y cyd gyda Heddlu Gwent, a gwnaed y tad yn destun Gorchymyn Atal a dedfryd o garchar wedi'i gohirio am ddwy flynedd. Hefyd, gwnaed y ddau riant yn destun Hysbysiad Lleihau Sŵn, a gwnaed cais llwyddiannus am Orchymyn Adennill Meddiant Ataliedig.

Penderfynwyd mai dyma oedd yr opsiwn gorau, er mwyn gallu gweithio gyda'r teulu a cheisio eu helpu i gynnal eu tenantiaeth.

Fodd bynnag, o fewn 6 wythnos o roi'r Gorchymyn Adennill Meddiant Ataliedig, derbyniwyd cwynion pellach. Sicrhawyd tystiolaeth sain a oedd yn dangos y ddau riant yn parhau i ddefnyddio iaith anweddus, bygythiadau, a chwarae cerddoriaeth uchel iawn. Gwnaed penderfyniad i wneud cais am Warrant Troi Allan, a llwyddwyd i sicrhau hyn ar 9fed Rhagfyr 2015.

Ar ôl troi'r teulu allan, siaradodd y teulu a oedd wedi dioddef yn eu sgîl am y ffordd mae eu bywydau wedi'u trawsnewid. Roeddent yn gallu cysgu'n well yn y nos, heb ofni beth allai ddigwydd nesaf gyda'u cymdogion. Dywedodd un aelod o'r teulu a oedd wedi dioddef bod eu bywyd wedi'i ddifetha cymaint drwy fyw y drws nesaf i ymddygiad o'r fath, yr oedd mynd i'r gwaith fel cael seibiant oherwydd graddau'r gofid a achoswyd iddynt hwy a'u teulu.

Os ydych yn profi problemau gyda'ch cymdogion, cysylltwch â'ch cwmni tai lleol i gael cymorth a chyngor, neu rhwch wybod i ni am hyn ar-lein yn: [www.caerffili.gov.uk/](http://www.caerffili.gov.uk/) Gwasanaethau/Tai/tenantiaid-cyngor-presennol

# Cartrefi i'w rhentu yn Rhymni

Mae gennym nifer o dai ar gael i'w rhentu yn Lle Rowan, Rhymni; ardal sy'n cael ei thrawsnewid yn awr, diolch i'r rhaglen adfywio gwerth 4.2 miliwn o bunnoedd.

Rydym yn cynnal gwelliannau mewnol ac allanol sylweddol i gartrefi yn Lle Rowan, yn cynnwys toeon newydd, rendro, ceginau, ystafelloedd ymolchi a systemau gwresogi.

Rydym yn ymgynghori â'r preswylwyr hefyd ar gynlluniau i drawsnewid ymddangosiad cyffredinol yr ardal, yn cynnwys gwella goleuadau stryd a gwelliannau amgylcheddol.

Mae rhaglen Lle Rowan hefyd wedi elwa ar £1 filiwn ychwanegol o Gronfa Trechu Tlodi Lleuedd Llewyrchus Llawn Addewid Llywodraeth Cymru. Yn ogystal â'i ddefnyddio i ymgysylltu â gwelliannau amgylcheddol yn y gymuned yn Lle Rowan, defnyddiwyd rhan o'r grant hwn hefyd i ariannu gwaith adnewyddu yng Nghanolfan Adnoddau Hafod Deg; cyfleuster aml-asiantaeth ar Stryd Fawr Rhymni sy'n cynnig ystod o wasanaethau cymorth i bobl leol.

Dyweddodd y Cyngorydd David Poole, Dirprwy Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet dros Dai, "Ers i'r cyngor ddechrau ar raglen adfywio Lle Rowan ym mis Hydref 2014, mae'r ardal wedi gweld trawsnewidiad rhyfeddol. Mae'r ymagwedd aml-asiantaeth sy'n cael ei defnyddio ar y prosiect hwn, yn ogystal â'r cyllid ychwanegol sy'n cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru, yn cael effaith arwyddocaol ar fywydau pobl leol. Mae'r cyfleuster sydd wedi'i adnewyddu yn Hafod Deg, er enghraifft, yn darparu ystod o wasanaethau angenrheidiol i breswylwyr ar garreg eu drws.



Mae'r fflatiau sydd wedi'u hadnewyddu ac sydd ar gael i'w rhentu yn Lle Rowan wedi'u cwblhau i safon uchel iawn a byddwn yn annog pobl i gysylltu â'r swyddfa dai leol i drefnu i'w gweld.

Mae'r cartrefi sydd ar gael yn awr i'w rhentu yn Lle Rowan yn fflatiau dwy ystafell wely. Mae gan bob fflat ei gardd breifat ei hun ac mae'n agos i'r cysylltiadau cludiant, siopau ac amwynderau lleol.

I gael rhagor o wybodaeth am y cartrefi sydd ar gael i'w rhentu, neu i drefnu i'w gweld, ffoniwch Swyddfa Dai Cwm Rhymni Uchaf ar 01443 873535 neu drwy anfon e-bost at [sdacwmrhymniuchaf@caerffilil.gov.uk](mailto:sdacwmrhymniuchaf@caerffilil.gov.uk). Rydym yn croesawu ymholiadau gan bobl nad ydynt ar y rhestr aros am dai ar hyn o bryd.

## E-sigarêts – diogelwch tân



Mae'n debygol eich bod wedi gweld llawer o hanesion yn y newyddion yn ddiweddar ynglŷn â pheryglon e-sigarêts. Os ydych yn eu defnyddio, dyma rai awgrymiadau defnyddiol i'ch helpu i fod yn ddiogel.

- Ni ddylech byth adael e-sigarêts heb oruchwyliaeth am gyfnodau hir
- Ni ddylech gymysgu rhannau gwahanol e-sigarêts
- Dylech ond defnyddio'r gwefrydd a ddarparwyd
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn prynu eich e-sigarèt o ffynhonnell ddibynadwy
- Gwnewch yn siŵr bod gan yr e-sigarèt dystysgrif CE

- Profwch eich larwm mwg yn rheolaidd
- Cysylltwch â Safonau Masnach os oes gennych unrhyw bryderon ynglŷn â diogelwch e-sigarêts

### Sut i wefru e-sigarêts yn ddiogel

- Dylech bob amser ddefnyddio'r gwefrydd cywir a dilyn cyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchwr
- Ni ddylech byth wefru batri sydd wedi'i ddifrodi, ei ollwng neu sy'n sownd
- Ni ddylech byth blygio gwefrydd i drawsnewidydd pŵer y prif gyflenwad trydan sydd heb ei gymeradwyo
- Gwnewch yn siŵr bod gan eich batri ddiogelwch gorwefru neu orboethi
- Ni ddylech orwefru eich batri; tynnwch y batri o'r gwefrydd pan fydd wedi gorffen gwefru
- Ni ddylech byth adael batri sy'n gwefru heb oruchwyliaeth
- Ni ddylech ei ddefnyddio os yw'n wlyb
- Ni ddylech dynhau'r atomeiddiwr yn ormodol pan fyddwch yn ei gysylltu i'r gwefrydd



## Gwella gwasanaethau – beth allwch chi ei wneud?

Mae cyfranogiad tenantiaid yn hollbwysig i'n helpu i wella gwasanaethau i bawb. Mae gennym nifer o grwpiau a gweithgareddau sydd ar gael i chi gymryd rhan ynddynt – edrychwch ar y tabl isod i weld pa rai allai fod yn addas i chi.

|                                               |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           |
|-----------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Cyfnewid Gwybodaeth Tenantiaid</b>         | Cyfarfod anffurfiol sy'n agored i bob tenant, lle gallwch gael gwybodaeth am wasanaethau tai a chael cyfle i gwrdd â thenantiaid eraill o bob cwr o'r fwrdeistref sirol. Cynhelir y cyfarfodydd bob 6 - 8 wythnos am 2 - 3 awr; mae pwnc neu thema benodol fel arfer i'r cyfarfodydd.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     |
| <b>Adolygwyr Cadair Freichiau</b>             | A oes gennych chi ymrwymiadau yn y cartref neu amgylchiadau sy'n ei gwneud yn anodd ichi fynychu grŵp neu gyfarfodydd yn rheolaidd? Gallai'r Adolygwyr Cadair Freichiau fod yn ddelfrydol i chi! Y rhain yw'r tenantiaid sy'n rhoi adborth i ni ar y cylchlythyr hwn a gwybodaeth arall yr ydym yn ei hanfon at denantiaid. Mae'r adolygwyr yn cwblhau arolwg byr ac mae eu henw yn cael ei roi mewn het bob tro y byddant yn dychwelyd arolwg, i ennill gwerth £15 o dalebau siopa.                                                                                                                                                                                                                                      |
| <b>Monitwyr Gwella Gwasanaethau Caerffili</b> | Ydych chi'n hoffi siarad gyda phobl? Allwch chi fod yn deg a gweld dwy ochr i stori? Allwch chi dreulio 2 – 3 awr y mis? Yna ymunwch â Monitwyr Gwella Gwasanaethau Caerffili (MGGC). Mae MGGC yn cynnal arolygon boddhad dros y ffôn gyda thenantiaid sydd wedi cael gwaith wedi'i gwblhau yn ddiweddar fel rhan o'n rhaglen Safon Ansawdd Tai Cymru yn ddiweddar.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       |
| <b>Cwsmer Cudd</b>                            | Os byddai'n well gennych weithio'n gudd, yna beth am ymuno â'n cwsmeriaid cudd sy'n profi'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan Cartrefi Caerffili. Gallai hyn fod drwy alwadau ffôn, llythyr, e-bost neu mewn person.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  |
| <b>Y Bartneriaeth Gwella Tai</b>              | Os hoffech gael gwybod am brofiadau tenantiaid o wasanaethau tai gwahanol, gallai'r grŵp hwn fod yn addas i chi.<br>Mae aelodau'r grŵp yn edrych ar dystiolaeth o brofiadau tenantiaid mewn un maes tai penodol, e.e. ein gwasanaeth cymorth tenantiaeth, adolygu'r dystiolaeth honno a dweud wrthym beth mae tenantiaid ei eisiau ac yn ei werthfawrogi gan y gwasanaeth. Mae'r adolygiadau fel arfer yn cael eu cynnal dros 5-6 sesiwn hanner diwrnod dros gyfnod o 2 fis.<br>Ein nod yw cynnal 2 adolygiad y flwyddyn; felly mae'n ymrwymiad rheolaidd am gyfnod o amser llai gyda seibiant hwy rhwng yr adolygiadau. Bydd yr adolygiad nesaf yn dechrau yn yr hydref felly mae'n amser da yn awr i bobl newydd ymuno! |
| <b>Grŵp colli synhwyrau</b>                   | Cafodd y grŵp hwn ei sefydlu i edrych ar ffyrdd y gellid gwella gwasanaethau i denantiaid sydd wedi colli eu golwg a'u clyw. Mae'r grŵp yn monitro'r cynnydd a wneir ar argymhellion a wnaed yn y canllaw arfer da a gyhoeddwyd y llynedd. Mae'r grŵp yn cwrdd bob chwarter am 2 awr.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     |
| <b>Grwpiau ffocws</b>                         | Weithiau byddwn yn dod â thenantiaid at ei gilydd ar gyfer un sesiwn untro i ofyn eu barn. Er enghraifft, y llynedd cynhaliwyd sesiynau ar y polisi rhent.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |
| <b>Cymdeithasau tenantiaid a phreswylwyr</b>  | Mae cymdeithasau yn grwpiau annibynnol o wirfoddolwyr sy'n dod ynghyd yn yr ardal lle maent yn byw er mwyn gwella eu cymuned leol ac maent yn aml yn helpu i ddarparu gweithgareddau cymunedol.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           |

I gael gwybod mwy am y grwpiau uchod, neu i gael gwybodaeth am ddigwyddiadau eraill sy'n cael eu cynnal, cysylltwch â'n Tîm Cyfranogiad Tenantiaid a'r Gymuned.

Ffôn: 01495 235011 / 235557

E-bost: [cyfranogiadtenantiaid@caerffili.gov.uk](mailto:cyfranogiadtenantiaid@caerffili.gov.uk)

## Diweddariad Grŵp Gorchwyl Cartrefi Caerffili

Cafodd swyddi gwag yn y Grŵp Gorchwyl eu llenwi yn ddiweddar. Oherwydd mai dim ond un enwebiad a gafwyd ar gyfer Cwm Rhymni Uchaf, nid oedd angen cynnal etholiad; yr aelod newydd ar gyfer yr ardal hon yw Jeff Smith, tenant yn Aberbargod. Yn dilyn

etholiad, yr aelod newydd ar gyfer Cwm Rhymni Isaf yw Yvonne Bryant o Gaerffili. Diolch i Max McDermott a Gemma Atkins, y cynrychiolwyr sy'n gorffen eu swyddi yn yr ardaloedd hynny, am eu cyfraniadau i'r Grŵp Gorchwyl.



# Gwybodaeth bwysig a allai effeithio ar eich cais am dŷ

Mae'r ffordd y mae pobl yn gwneud cais ac yn cael eu hasesu ar gyfer tai cymdeithasol ym mwrdeistref sirol Caerffili yn newid.

Bydd y Gofrestr Tai Cyffredin yn cael ei chyflwyno erbyn Rhagfyr 2016 sy'n golygu y bydd y 7 cymdeithas tai sydd â chartrefi yn y fwrdeistref sirol, yn cau eu rhestrau aros ac yn creu un rhestr aros. Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili fydd yn rheoli'r rhestr hon.

Os oes gennych gais am dŷ gyda ni yn awr a'ch bod eisiau parhau ar y rhestr aros, byddwch yn cael eich trosglwyddo i'r Gofrestr Tai Cyffredin. Fodd bynnag, er mwyn i ni allu gwneud hyn, bydd angen i ni asesu eich cais yn unol â'r Polisi Dyrannu Cyffredin. Mae hyn

yn golygu y gallai fod angen rhywfaint o wybodaeth ychwanegol arnom gennych chi.

Dylech dderbyn llythyr oddi wrthym, os nad ydych eisoes wedi'i dderbyn, gyda ffurflen gais fer i chi ei chwblhau. Mae'n bwysig iawn eich bod yn ei chwblhau a'i dychwelyd atom o fewn 21 diwrnod o ddyddiad y llythyr; os na fyddwch yn gwneud hyn efallai na chewch eich trosglwyddo i'r Gofrestr Tai Cyffredin ac efallai na chewch eich ystyried ar gyfer eich ailgartrefu.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os oes angen help arnoch i gwblhau'r ffurflen, cysylltwch â'n Tîm Dyraniadau ar 01443 873587 neu anfon e-bost [dyraniadauachyngortai@caerffili.gov.uk](mailto:dyraniadauachyngortai@caerffili.gov.uk)

## Darparu tai fforddiadwy - Aberbargod

Mae gan y cyngor rwymedigaeth i gynnal asesiad o angen yn y fwrdeistref sirol. Gelwir yr asesiad hwn yn Asesiad o'r Farchnad Dai Leol. Mae'r asesiad diweddaraf wedi dangos yr angen i adeiladu 526 o dai fforddiadwy bob blwyddyn yn y fwrdeistref sirol. Mewn ymgais i fynd i'r afael â'r angen hwn, rydym yn gweithio gyda nifer o Gymdeithasau Tai partner i fynd i'r afael â'r prinder hwn yn y cyflenwad tai.

Mae nifer o gartrefi yn cael eu hadeiladu yn awr yn y fwrdeistref sirol; mae un o'r cynlluniau hyn yn cael ei ddarparu ar safle hen Ysgol Fabanod Aberbargod. Cymeradwyodd Cabinet y cyngor i'r safle hwn gael ei werthu i Gymdeithas Tai Unedig Cymru yn 2014 ar gyfer datblygu 26 o gartrefi fforddiadwy. Mae'r datblygiad yn cynnwys tai gydag 1, 2 a 3 ystafell wely ynghyd â thai unllawr 2 a 3 ystafell wely sy'n hygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn.

Mae'r adeiladau'n cael eu hadeiladu i Lefel 3 y safon Cod Cartrefi Cynaliadwy (sy'n mesur effeithlonrwydd ynni cartrefi newydd); mae gan bob tŷ lefel uchel o inswleiddiad sy'n golygu ôl-troed carbon is a biliau tanwydd is i'r preswylwyr. Disgwylir i'r cartrefi gael eu trosglwyddo ym mis Mehefin 2016.

Cyfanswm gwerth y prosiect yw £2,633,608.00 a llwyddodd y cyngor i sicrhau £1,931,977.52 o Grant Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru i helpu i ddarparu'r datblygiad hwn.

Dyweddodd y Cynghorydd Keith Reynolds, Arweinydd y Cyngor, "Rydym yn credu bod gan bawb hawl i dai fforddiadwy o safon dda ac rydym yn falch iawn bod y gwaith o adeiladu'r datblygiad hwn yn mynd rhagddo erbyn hyn".

Ychwanegodd y Cynghorydd David Poole, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Dai y Cyngor, "Mae darparu tai fforddiadwy yn flaenoriaeth bwysig i'r cyngor ac rwy'n falch iawn y bydd y cynllun hwn yn darparu cyfle i fwy o bobl leol gael cartrefi ynni effeithlon, o ansawdd da. Mae'r datblygiad hefyd wedi darparu cyfleoedd hyfforddiant a chyfleoedd cyflogaeth i bobl leol."



Yr hen ysgol



Y safle'n cael ei adeiladu

# Rhaglen Gwella Safon Ansawdd Tai Cymru Lle a Phryd?

Mae'r siart hon yn dangos pryd y bydd y gwaith yn cael ei wneud ac ym mha ardal. Gallai gwaith mewnlol gynnwys ceginau newydd, ystafelloedd ymolchi, gwresogi ac ailweirio trydanol mewn rhai cartrefi. Gallai gwaith allanol gynnwys, er enghraifft, drysau, cwteri / pibellau dŵr a gwaith toi newydd. Bydd y gwaith yn amrywio o eiddo i eiddo – bydd angen mwy o waith ar rai i sicrhau eu bod yn cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru.

Mae'r rhaglen yn un cymhleth iawn ac weithiau gall pethau newid. Efallai eich bod eisoes wedi sylwi ar rai newidiadau dyddiadau o raglenni a roddwyd i chi'n flaenorol; mae'n ddrwg gennym am hyn, ond mae'r newidiadau hyn wedi'u hachosi gan nifer o ffactorau. Byddwn yn rhoi digon o rybudd i chi cyn i waith ddechrau yn eich ardal chi. Nodwch - nid yw'r rhaglen hon yn cynnwys cynlluniau tai gwarchod, oherwydd mae rhaglen arall yn gyfrifol am hyn.

| CYMUNED              | MEWNOL            | ALLANOL                       |
|----------------------|-------------------|-------------------------------|
| ABERBARGOD ISAF      | 2016/17           | 2017/18                       |
| CANOL ABERBARGOD     | 2016/17           | 2017/18                       |
| ABERBARGOD UCHAF     | 2017/18           | 2018/19                       |
| ABERTRIDWR           | 2016/17           | 2014/15                       |
| ABERTYSWG            | 2017/18           | 2016/17                       |
| ARGOED               | 2015/16           | 2014/15                       |
| BARGOD               | 2018/19           | 2016/17                       |
| BEDWAS               | 2016/17, 2017/18, | 2014/15, 2015/16<br>a 2016/17 |
| COED DUON            | 2018/19 a 2019/20 | 2017/18 a 2018/19             |
| BRITANNIA            | 2015/16           | 2017/18                       |
| BRITHDIR             | 2016/17           | 2015/16                       |
| BRYNCENYDD           | 2014/15           | 2015/16                       |
| CAERBRAGDY           | 2017/18           | 2018/19                       |
| CASCADE              | 2015/16           | 2018/19                       |
| CEFN FFOREST         | 2015/16           | 2018/19                       |
| CEFN HENGOED         | 2015/16 a 2017/18 | 2015/16 a 2018/19             |
| PARC CHURCHILL       | 2016/17           | 2018/19                       |
| HEOL CLAUDE          | 2017/18           | 2016/17                       |
| CROESPENMAEN         | 2017/18           | 2015/16                       |
| CROSSKEYS            | 2017/18           | 2019/20                       |
| CWMCARN              | 2017/18           | 2019/20                       |
| DERI                 | 2016/17           | 2017/18                       |
| TREM DEG             | 2015/16           | 2017/18                       |
| TRELYN               | 2015/16           | 2017/18                       |
| FOCHRIW              | 2018/19           | 2016/17                       |
| GELLIGAER            | 2017/18           | 2015/16                       |
| GELLI-GROES          | 2016/17           | 2015/16                       |
| GILFACH ISAF         | 2018/19           | 2016/17                       |
| GILFACH ISAF CAM 1   | 2016/17           | 2017/18                       |
| GILFACH CAM 2        | 2016/17           | 2017/18                       |
| GILFACH CAM 3        | 2017/18           | 2018/19                       |
| GRAIG-Y-RHACA        | 2015/16 a 2016/17 | 19/20                         |
| HENGOED              | 2014/15           | 17/18                         |
| HEOL TRECASTELL      | 2017/18           | 14/15                         |
| YR UWCH DDÔL         | 2014/15           | 15/16                         |
| PARC LANSBURY        | 2014/15 a 2015/16 | 17/18                         |
| LLANBRADACH          | 2016/17           | 17/18                         |
| LLANFACH             | 2014/15           | 16/17                         |
| MACHEN               | 2017/18           | 18/19                         |
| MAES MABON           | 2016/17           | 19/20                         |
| MAES-Y-CWMWR         | 2018/19           | 17/18                         |
| MARKHAM – LLWYNCELYN | 2015/16 a 2016/17 | 14/15                         |
| MORRISVILLE          | 2015/16           | 16/17                         |
| NANTDDU              | 2016/17           | 14/15                         |
| NELSON               | 2015/16           | 19/20                         |

| CYMUNED                  | MEWNOL            | ALLANOL           |
|--------------------------|-------------------|-------------------|
| TREDEGAR NEWYDD          | 2019/20           | 15/16             |
| TRECELYN                 | 2017/18           | 19/20             |
| OAKDALE                  | 2016/17           | 14/15             |
| CEFN-Y-PANT ISAF         | 2014/15           | 17/18             |
| CEFN-Y-PANT UCHAF        | 2014/15           | 17/18             |
| PENGAM                   | 2015/16           | 17/18             |
| PENLLWYN ISAF            | 2016/17           | 17/18             |
| PENLLWYN UCHAF           | 2017/18 a 2018/19 | 15/16             |
| PENPEDAIRHEOL            | 2018/19           | 18/19             |
| PENTWYN-MAWR             | 2016/17           | 15/16             |
| PEN-Y-BRYN               | 2018/19           | 18/19             |
| PEN-YR-HEOL ISAF         | 2018/19           | 2016/17 a 2017/18 |
| PEN-YR-HEOL UCHAF        | 2019/20           | 2016/17 a 2018/19 |
| PERSONDY                 | 2015/16           | 2016/17           |
| TREFFILIP                | 2019/20           | 2015/16           |
| PONTLOTYN                | 2015/16           | 2016/17           |
| PONT-Y-MEISTR            | 2018/19           | 2016/17           |
| PONT-Y-WAUN              | 2018/19           | 2016/17           |
| PARC PORSET              | 2018/19           | 2019/20           |
| PWLL-Y-PANT              | 2013/14           | 2016/17           |
| GOGLEDD RHYMNI           | 2014/15           | 2017/18           |
| DE RHYMNI                | 2014/15           | 2019/20           |
| RHISGA                   | 2018/19           | 2016/17           |
| RHYDRI                   | 2017/18           | 2016/17           |
| SENGHENYDD               | 2013/14           | 2016/17           |
| MAES Y FFYNNON           | 2016/17           | 2015/16           |
| THOMASVILLE              | 2013/14           | 2016/17 a 2018/19 |
| TIRPHIL                  | 2016/17           | 2015/16           |
| TIR-Y-BERTH              | 2015/16           | 2018/19           |
| TRAPWELL                 | 2017/18           | 2016/17           |
| TRECENYDD                | 2014/15           | 2016/17           |
| TRELYN UCHAF             | 2014/15           | 2017/18           |
| TREOWEN                  | 2017/18           | 2019/20           |
| TRETOMOS                 | 2015/16           | 2018/19           |
| TRINANT                  | 2017/18           | 2016/17           |
| GERDDI'R TWYN            | 2016/17           | 2018/19           |
| TŶ ISAF                  | 2014/15           | 2018/19           |
| TŶ NANT                  | 2013/14           | 2016/17 a 2018/19 |
| TŶ SIGN ISAF             | 2018/19           | 2016/17           |
| TŶ SIGN UCHAF            | 2015/16 a 2016/17 | 2018/19           |
| WATTSVILLE               | 2015/16           | 2016/17           |
| WAUNFACH                 | 2017/18           | 2016/17           |
| WESTEND                  | 2015/16           | 2016/17           |
| YNYS-DDU – CWMFELIN-FACH | 2018/19           | 2015/16           |
| YSTRAD MYNACH            | 2014/15           | 2018/19           |

Er ein bod yn gwneud ein gorau i sicrhau bod y wybodaeth yn y cylchlythyr hwn yn gywir, efallai na fydd bob amser yn gyfredol; dylech gadarnhau gyda ni yn gyntaf!